

Darganfod: Grawys 2019

Wrth barhau i gerdded tuag at y Pasg, dilynwn Pedr, Iago ac Ioan i ben y mynydd lle welsant Iesu Grist yn ei ogoniant. **Y Parch Bryn Williams, Pwllheli** sy'n ein tywys ar ein taith yr wythnos hon.

DARGANFYDDIAD SY'N GWEDDNEWID

Rhyw wythnos ar ôl i Iesu Grist ragfynegi ei ddiodeffaint, ei farwolaeth a'i atgyfodiad, mae'n cymryd Pedr, Iago a Ioan i fyny i'r mynydd i weddio. (Mathew 17: 1-8, Marc 9: 2-8 a Luc 9: 28-36). Pa fynydd oedd hwn?

Mae traddodiad yn cynnig mynyddoedd Tabor neu Hermon.

Ond y mynydd mwyaf tebygol ydy 'Jebel Jermac' yng Ngogledd Galilea, y pegwn uchaf yn yr ardal yma, sy'n cyrraedd rhyw 4000 troedfedd uwchben Môr y Canoldir.

Medrwn dychmygu'r olygfa i bob cyfeirirad o fan mor uchel. O'r fan hyn doedd y daith i Gapernaum ddim ymhell gan bod Iesu a'i ddsyblion wedi cyrraedd yno erbyn adnod 24 (Mathew 17: 24). Wrth i'r Iesu weddio, 'Dyma olwg Iesu'n cael ei drawsnewid o flaen eu llygaid – roedd ei wyneb yn disgleirio fel yr haul, a throdd ei ddillad yn wyn llachar fel golau. Wedyn dyma Moses ac Elias yn ymddangos, yn sgwrsio gyda Iesu.' (Mathew 17: 2-3. Beibl.net).


Mae Mathew a Marc yn dweud bod Moses ac Elias wedi siarad gyda Iesu ond mae Luc yn fanylach gan ddweud, 'yn siarad am ei ymadawiad, y weithred yr oedd i'w chyflawni yn Jerwsalem.' (Luc 9: 31).

Yr hyn sydd wedi bod yn benbleth i mi wrth i mi ddarllen hanes 'Gweddnewidiad Iesu Grist' ydy'r cwestiwn, sut roedd Pedr a Iago a Ioan yn medru adnabod Moses ac Elias?

Wnaeth Iesu eu cyflwyno iddynt?

Wnaeth Duw ei ddatguddio iddynt yn eu calonnau a'u meddyliau?

Posiblwydd mwy dychmygol fyth wedyn ydy bod Moses wedi ymddangos gyda Llyfr y Gyfraith yn ei ddwylo ac Elias wedi cyrraedd pen y mynydd yn teithio ar gerbyd tanllyd. Yr unig beth yr ydym yn ei wybod, ac angen ei wybod



Gweddnewidiad Iesu gan Carl Heinrich Bloch (1834-1890)

Trwy ganiatâd Open Library: OL5067552A

Ymhen chwe diwrnod dyma Iesu'n cymryd Pedr ac Iago ac Ioan ei frawd, ac yn mynd â hwy i fynydd uchel o'r neilltu. A gweddnewidiwyd ef yn eu gŵydd hwy, a disgleiriodd ei wyneb fel yr haul, ac aeth ei ddillad yn wyn fel y goleuni. A dyma Moses ac Elias yn ymddangos iddynt, yn ymddiddan ag ef. A dywedodd Pedr wrth Iesu, "Arglwydd, y mae'n dda ein bod ni yma; os mynni, gwnaf yma dair pabell, un i ti ac un i Moses ac un i Elias." Tra oedd ef yn dal i siarad, dyma gwmul golau yn cysgodi drostynt, a llais o'r cwmul yn dweud, "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu; gwrandewch arno." A phan glywodd y disgyblion hyn syrthiasant ar eu hwynebau a chydiodd ofn mawr ynddynt.

Mathew 17:1-6

ydyw, eu bod wedi ymddangos a bod y tri disgybl wedi eu hadnabod.

O fewn yr awyrgylch unigryw, ryfeddol hon, a Moses ac Elias yn siarad hefo Iesu am yr hyn oedd yn mynd i ddigwydd, mae Pedr yn cynnig adeiladu cysgod i'r tri ohonynt. Efallai mai meddwl yr oedd Pedr am y pebyll a ddefnyddiwyd gan yr Israeliad yn ystod Gŵyl y Pebyll (Lefiticus 23: 34-42). Eisiau i'r profiad barhau oedd Pedr siŵr, a chael aros yng nghwmni Iesu, Moses ac Elias am sbel. Yn union fel y gwnawn ni fynd allan o'n ffordd i berswadio rhai pobl i ddod i mewn i'n cartrefi er mwyn i ni gael mwy o amser hefo nhw. Wrth i Pedr ddal i siarad, 'dyma lais o'r cwmwl yn dweud, "Fy Mab annwyl i ydy hwn; mae wedi fy mhlesio i'n llwyr. Gwrandwch arno!" (Mathew 17: 5)

Yn sicr, un pwrpas amlwg i ddigwyddiad 'Gweddnewidiad Iesu' ydoedd i'r tri disgybl agosaf at Iesu ddysgu rhyw bethau ychwanegol ynglyn â phwy oedd Iesu. Newidiwyd Iesu yn llwyr. Dyfynaf eto, cafodd 'ei drawsnewid o flaen eu llygaid – roedd ei wyneb yn disgleirio fel yr haul, a throdd ei ddillad yn wyn llachar fel golau.' Hyn er mwyn i'r disgyblion gael golwg ychwanegol ar ogoniant yr Iesu. Dim ond o gyfeiriad corfforol yr oedd y disgyblion wedi adnabod Iesu. Yn awr, er nad yn deall yn llwyr, roeddynt yn cael cip olwg ar ddwyfoldeb Crist, y Meseia. Dyma'n union yr oedd y tri ohonynt ei eisiau ar ôl ei glywed yn rhagfynegi ei farwolaeth.

Yn symbolaidd, roedd ymddangosiad Moses ac Elias yn cynrychioli'r Gyfraith a'r Proffwydi. Ond roedd llais Duw o'r nefoedd, 'gwrandewch arno', yn gyhoeddiad bod yn rhaid, hyd yn oed, i'r Gyfraith a'r Proffwydi symud a rhoi'r lle canolog i Iesu. Ef ydyw cyflawniad y Gyfraith ynghyd â'r degau o

(parhad ar dudalen 8)

DAU BENODIAD NEWYDD

Pleser yw cyhoeddi fod Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi gwneud dau benodiad yn ystod yr wythnosau diwethaf; Mrs Ffion Williams fel Prif Weinyddydd, a Mrs Joanna Thomas-Wright fel Pennaeth Cefnogaeth Strategol.

Wedi Cymanfa Gyffredinol 2017 penderfynodd Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol i rannu swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn ddwy ran. Yr Ysgrifennydd Cyffredinol yw Prif Swyddog y Cyfundeb yn bwrw golwg dros holl weithgarwch yr Eglwys, ond ef hefyd yw'r Cyfarwyddwr Gweinidogaethau sy'n gyfrifol am arwain gweinidogaeth a chenhadaeth yr Eglwys. Dros y pymtheg mis diwethaf y mae'r gwaith corfforaethol a gweinyddol wedi bod yn gyfrifoldeb i'r Parchedig Ifan Roberts, fel Prif Weinyddydd Rhan-amser. Bydd Ifan yn ymadael â'r swydd ddiwedd mis Mawrth ac yr ydym yn diolch iddo am ei wasanaeth ac am hwyluso'r trawsnewid uchod a gosod sylfaen gadarn i'r dyfodol.



Mrs Ffion Williams
Prif Weinyddydd

Mae Ffion eisoes yn gweithio i Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel Pennaeth Cefnogaeth Strategol, a hi bellach fydd Prif Weinyddydd y Cyfundeb. Yn wreiddiol yn aelod yng Nghapel Twrgwyn, Bangor, treuliodd amser yn Llundain, gan fynychu ein heglwys yn Ealing, cyn symud i fod yn weithiwr cymunedol inni yn Siloh, Ystrad Mynach. Bydd yn cymryd ei dyletswyddau presennol fel cyfreithiwr gyda hi i'w swydd newydd. Hi fydd yn delio â materion cyfreithiol o ddydd i ddydd, a phan yn briodol yn ceisio cyngor arbenigwyr cyfreithiol mewn gwahanol feysydd. Bydd hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol, ac Ysgrifennydd yr Adran Adnoddau a'r Bwrdd Eiddo, a bydd ganddi gyfrifoldeb penodol dros oruchwylio holl agweddau llywodraethu corfforaethol yr Elusen. Bydd hefyd yn goruchwylio gwaith Swyddfa'r Gymanfa

Gyffredinol yng Nghaerdydd, ac yn sicrhau fod yr holl staff yn gweithio fel un tîm. Swydd ran-amser yw hon a bydd yn gweithio am ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos.



Mrs Joanna Thomas-Wright
Pennaeth Cefnogaeth Strategol

Mae Joanna ar hyn o bryd yn byw yn Llundain ond yn wreiddiol o Sir Gaerfyrddin ac yn aelod yng Nghapel Peniel, Foelgastell yng Nghwm Gwendraeth. Mae'r teulu hefyd yn addoli yn ffyddlon yng Nghapel Seion, Ealing Green, lle mae Joanna yn gyfrifol am yr Ysgol Sul. Yn ddiweddar mae Joanna wedi bod yn gweithio i elusennau fel MIND, ac y mae ganddi brofiad helaeth mewn llunio a gweithredu strategaethau i elusennau. Mae hefyd wedi ennill gwobrau am weithio'n wirfoddol i elusennau sy'n cynorthwyo rhai sy'n dioddef ag anabledau. Prif swyddogaeth Joanna fydd cyd-weithio gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Swyddogion, y Bwrdd a'r Adranau i ddatblygu strategaeth hyfyr ar gyfer Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Hi hefyd fydd yn gyfrifol am weithrediad llyfn ac effeithiol yr holl bwyllgorau, a sicrhau fod y polisiau a'r penderfyniadau yn cael eu gweithredu. Mae'r swydd hon hefyd yn un rhan-amser a bydd Joanna yn gweithio am ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos.

Yr ydym yn dymuno pob bendith i'r ddwy wrth iddynt ymgymryd â'r swyddi allweddol hyn o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Brian Matthews,
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Meirion Morris,
Ysgrifennydd Cyffredinol

DARGANFYDDIAD SY'N GWEDDNEWID

(parhad o dudalen 1)

broffwydolaethau'r Hen Destament. Yn ogystal, wrth gael y cip olwg yma ar ogoniant Iesu, roedden hefyd yn cael peth golwg ar y gogoniant oedd i ddod a'i orseddu fel Brenin y Brenhinoedd ac Arglwydd yr Arglwyddi.

Wnaeth y tri disgybl ddim anghofio'r hyn ddigwyddodd ar y mynydd yng Ngogledd Galilea. Adroddodd Ioan ymhen blynedd, 'gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.' (Ioan 1: 14). Ysgrifennodd Pedr yntau, 'Nid dilyn chwedlau wedi eu dyfeisio'n gyfrwys yr oeddem wrth hysbysu i chwi allu ein Harglwydd Iesu Grist a'i ddyfodiad; yn hytrach, yr oeddem wedi ei weld â'n llygaid ein hunain yn ei fawredd. Yr oeddem yno pan roddwyd iddo anrhydedd a gogoniant gan Dduw Dad, pan ddaeth y llais ato o'r Gogoniant goruchel yn dweud: "Hwn yw fy Mab, fy Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu." Fe glywsom ni'r llais hwn yn dod o'r nef, oherwydd yr oeddem gydag ef ar y mynydd sanctaidd.' (1 Pedr 1: 16-18).

Bu i'r rhai a fu'n dystion i'r Gweddnewidiad, dystio i weddill y disgyblion ac i'r miliynau ar draws y cenedlaethau a dyma'r cyfarwyddyd i ninnau heddiw ac yn siwr felly yn nhymor y Grawys, i rannu gogoniant goruwchnaturiol ein Gwaredwr.

Cywiriad

Cam briodolwyd cyfraniad yr wythnos diwethaf am Cana, Rhostrehwfa. Dylid nodi mai George Emlyn Lewis oedd yr awdur nid fel y nodwyd.

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: goleuad@ebcpcw.org.uk

Hysbysebion i Swyddfa'r Goleuad, Gwasg y Bwthyn, Tŷ Cadnant, Parth 2, Lôn Hen Felin, Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD. (01286) 672018. e bost: goleuad@btconnect.com

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost fel Newyddiadur.

ISSN 0017-1700



9 770017 170003